# Glas

Rhif 205
Chwefror 2025

Llén natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Bwletin misol

Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd



Tingoch du, y Gogarth
25 Ionawr 2025
Alun Williams

**Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**

Cysylltwch â ni trwy **bwletinglas.llennatur@gmail.com**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

# Storm Éowyn - haen o heli mor

**Trefaes - y coed a'r gwrychoedd yn wyn gan heli môr heddiw. Y gwynt o gyfeiriad Porth Neigwl a'r tywydd yn sych a gwyntog iawn. Storm Éowyn. Dwi ddim yn cofio gweld cymaint o'r blaen.**

(rhwng Sarn a Botwnnog 24/1/25) **Morwen Jones**




Tydwi ddim yn cofio gweld y coed a'r gwrychoedd mor wyn ar y Foryd gyda heli o'r afon Menai ychwaith. **Wendy Jones**


Mae o wedi mynd i gyd bore ma Morwen! **Wendy Thomas**

Y giât, y coed a'r mieri yn wyn o heli'r môr ar lôn Pengamfa, Llanbedrog. Erioed wedi gweld hyn o'r blaen. Yr heli wedi chwythu o'r Gorllewin, sef o gyfeiriad Porth Neigwl, yn ystod Storm Éowyn, 24 Ionawr, 2025. **Greta Hughes**








**Storm Éowyn yn ôl data Gorsaf Dywydd Maes Gwynedd Waunfawr.**

Diolch i Gethin Pritchard

# Llong yr Hogia Drwg

**Hanes tywyll y Clio - Dolen**

## Llong ar Afon Menai yn gartref i hogiau drwg Oes Fictoria



HMS Clio wedi'i angori yn Afon Menai

**11 cofnod diddorol yn olrhain peth o hanes y Clio yn y Tywyddiadur.**

- Doedd mam a dad i'm yn deud clwydda... fydd y llun ma ar *overtime* acw o heddiw mlaen. **Dyfed Davies**
- Oedda ni'n cael ein bygwth efo hon hefyd. **Iona Lyn Hughes**
- Llong fawr - y bygwth i blant drwg. **Selwyn Thomas**
- Ni yn blant yn Pen Llŷn yn clywed am llong plant drwg hefyd. **John Jones**

## Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Glas

Cysylltwch gyda ni:

bwletinglas.llennatur@gmail.com

# Adar Nia Evans



Gylfinir, 9 Ionawr



Giach - Cors Ddyga, Pentre Berw,
Sir Fôn ’pnawn ’ma 19 Ionawr



Crëyr glas, 9 Chwefror



Gylfinir 9 Ionawr



Pibyddion coescoch, 9 Ionawr



Elyrch y Gogledd
Cors Ddyga, Pentre Berw,
Sir Fôn 01/01/25



Cwtiad y Traeth - Moel y Don,
Llanedwen, Sir Fôn 14 Chwefror



Corhwyaden
13 Chwefror



Cornchwiglod yn ffraeo am diriogaeth...
y tymor paru wedi cychwyn!
13 Chwefror



Cwtiaid aur - 13 Chwefror
“Papur wal o aur”




13 Chwefror
Cwtiad aur



13 Chwefror
Cwtiad aur a chornchwiglen

# Y bwdji a'i hanes yng Nghymru

**Yn ôl yn y 50au roedd pawb jest yn cadw byji (blaw ni!). Ond be sy'n aros yn y cof ac sy'n rhyfeddol i mi, yw mai'r unig enw dwi'n cofio pobl yn rhoi ar eu byjis oedd JOEY. Ydwi'n iawn yn meddwl mai llys-enw ar rywun o Awstralia oedd Joey? Os na, oes yna ddehongliad arall.** **DB**


Llun trwy law Netta Pritchard

- Ydych chi'n cadw bwdji heddiw?
- Beth am lun i ddangos ei liwiau?
- Pryd oedd gennych fyji?
- Beth oedd ei enw?

▪ Dwi ddim yn cofio byjis melyn ers talwm llawer. Glas a gwyn oedd y lliw arferol i mi gofio fwyaf. **DB**

▪ Flynyddoedd yn ddiweddarach, bu sgwrs rhwng ffrind a minnau am fyjis ers talwm. Roedd ganddi hithau fyji o'r enw Peter, meddai hi. Un gwyrdd oedd o!

▪ Mi oedd gen i fwji union fel hwn [melyn] o'r enw Joey pan o'n i'n blentyn!!! Un da oedd o'n setlo'i hun yn eistedd ar fy mhen i. Mi ddeffron ni ryw fore Dolig ac mi oedd o wedi marw yn ei gaets.

▪ Ddim yn hoffi eu gweld wedi eu carcharu...

**Olwen Jones**

Hwyrach bod llawer ohonom wedi symyd ymlaen erbyn hyn... ond dydi hynny ddim yn rheswm i anwybyddu hanes. Tybed gyda llaw ydi bydjis *'captive bred'* sydd wedi dianc o gaethiwed yn gwybod sut i oroesi yn y gwyllt? Dim gobaith yn fan hyn - a dim chwaith yn ôl yn eu cynefin gwreiddiol yn Awstralia dybiwn i. Onid yw'n hawdd trosglwyddo ein dyheadau dynol am 'ryddid' a 'hapusrwydd' ar anifail heb i hynny fod yn briodol o gwbl. **DB**

▪ Dim angen eu dal yn y dechrau - cytuno na fuasent yn goroesi yn y gwyllt wedyn. **OJ**

Braidd yn hwyr i newid y gorffennol? ('Ta ydyn nhw'n cael eu dal yn y gwyllt o hyd? - go brin pan mae na gymaint o fridio) **DB**

▪ Oedd gennym ni fyji glas yn yr 70/80au o'r enw Joey a mi fywiodd yn reit hir, roedd tua 13 oed dwi'n siwr

**Sian Eryri Davies**

Arwydd ei fod o wedi addasu i gaethiwed?

**DB**

▪ Nid bwji ond gwelais cocatw yn hedfan dros marina Aberystwyth rhai blynyddoedd yn ôl. Buan daeth haid o frain amdano a'i daro a phlymiodd yn gelain i'r dŵr. Natur! **Mair Jones**

▪ Yn y 70au ffeindiais byji tu allan i siop yn Caernarfon Galwais o ar ol y siop, sef Nelson [siop ddillad drudfawr yng Nghaernarfon a losgodd i lawr]. **Anwen Hughes**

▪ Roedd gan fy hen fodryb ac ewyrth un glas yn y 70au. Ie, Joey oedd hwnnw hefyd. Yn ôl yr **Australian Geographic**, *"The birds became embedded in popular culture, arriving in earnest when a budgie called Joey was written into the long-running BBC radio drama The Archers in 1953."* Tybed ai am fod byjis (*Melopsittacus undulatus* yn swyddogol) yn fach ac yn dod o Awstralia fel cyw cangarŵ oedd y rhesymeg neu ai ar ôl Joe Grundy y'i enwyd. **Rex Caprorum**

Dim Joey mae pobl Awstralia yn galw cangarws? **Llinos Williams**

▪ Roedd nifer fawr o fwjis yn tŷ nain, dwi'n cofio 3 neu 4 ond roedd ganddi un pan oedd fy nhad yn blentyn. Nid miloedd efallai ond degau bendant.


**Paula Roberts**

▪ Byji glas oedd ganddon ni... Tiny oedd ei enw fo. 'Roedd o'n byw mewn caets ar stand uchel yn y stafell fyw. Dwi'n cofio'r *sandpaper* i roi ar waelod y caets yn dod mewn amlen fawr efo llun byji glas arno... o ia, a'r *cuttlefish* ar ochor y caets. 'Roedd o'n hoffi mynd ar y siglen! **Media4.giphy** **Del D'Aubray**

▪ Dywediad yn yr iaith fain, "mae pawb yn meddwl bod aderyn mewn cawell yn canu ond mewn gwirionedd efallai mai llefain mae o". **Derec Owen**

▪ Rio a Twîti sydd yma, ond yn eu cyfarch, 'Joey bwji nain', gan bod fy nain gyda bwji a fyddai'n ei dynwared hi yn siarad gyda nhw. Bu rhaid i nain fynd i'r ysbyty unwaith a bu farw y bwji, Joey. Roedd yna ras wedyn i brynu bwji yn lle hwnw oedd wedi marw, ond doedd dim un yr un lliw i gael. Sylwodd nain ddim ar y newid lliw, dim ond ar gân y bwji wedi newid a bellach ddim yn eu hateb wrth siarad a hi. 'Joey bach wedi digio efo nain.' **Jen Morris**





▪ Yn ardal Trelawnyd, Sir y Fflint, yn y 1940au, canaries melyn oedd yn y mwyafrif ac ond yn y 1950au daeth y budgie yn boblogaidd, er bod y canary'n canu'n fwy swynol. Yn ardaloedd Treffynnon, a'r arfordir rhwng Ffynnongroew a Bagillt roedd y Nico'n fwy cyffredin, a'r gân yn rhyfeddol. Llys enw ar drigolion Treffynnon a Bagillt yn y cyfnod oedd cajo Nicos. (er mae hi'n bosib mai catcho Nicos oedd y gwreiddiol)

- Drudwen yn llawer mwy doniol a difyr.

**Dafydd Attenborough**

- Bili oedd enw ein bwji ni. Glas oedd o. Yn ddiweddar fuodd gen i ddau ganêri (dienw) oedd yn canu'i hochor hi yn cystadlu â'i gilydd. **Eilian Williams**

- Oedd fy Nhad yn arfer magu bwjis. Cofio un par yn cael cyw fore Dolig. **Erwyn Jones**

> Amcan y bridwyr bwjis oedd bod y cyw yn dod o'r wy ychydig ddyddiau cyn y 1af o Ionawr, er mwyn medru gosod modrwy efo dyddiad y flwyddyn newydd cyn i'r goes dyfu yn rhy fawr. Roedd y bwjis hyn yn medru cystadlu mewn dosbarth "bwjis ifanc" y flwyddyn hono.
>
> **Iwan Williams**

- Fuodd ganddom ni ddau "Joey" yn y 60/70au. Efo'r ail, roedd y cratsh yn cael ei roid ar lawr (efo papur newydd oddi tano), a'r drws yn gael ei agor. Roedd o yn sefyll ar drothwy'r drws, efo'r ysgol yn gwynebu allan, a llichio pel er mwyn i ni fynd ar ei ôl a rhoid o yn ôl iddo. Wnaeth o ddim unwaith fflio allan. Fydda fy nain yn deud bod o yn codi twrw cyn i mi ddod adra o'r ysgol fel y basa'n gwybod yr amsar. **Edwina Fletcher**

- Un bach gwyrdd o'dd gen i, yn yr 80au. Jack oedd ei enw, achos bo' ganddo ni gath o'r enw Jill! Tra o'n i'n trio recordio Top of the Pops oddi ar y teledu gyda recordydd tâp, bydde Jack yn canu'n braf yn y cefndir, ac yn dweud *"helo Jack"*. Mi ddihangodd tra roedd ei gawell yn cael ei lanhau... nid fi oedd yn glanhau! Baswn i ddim yn cael bwji heddiw. **Angharad Jones**


- Roedd ffrind 'nhad yn magu, cadw a siewan[?] bwjis, felly, roedd wastod un 'da ni a phan byddai un yn trigo, deuai un arall yn ei le yn go rwydd. Ond 'Joey' oedd enw pob un, yn rhai glas a gwyn neu'n wyrdd a melyn, a cheiliog bob tro! Byddai Mam yn ei ddysgu i siarad ac roedd un yn enwedig yn ddigon doniol. Dyddiau difrys, melys, mwyn. **Keri Morgan**

- Welais inna' 'rioed fwji melyn unlliw chwaith - dim ond rhai gwyrdd/melyn a glas/gwyn. Fuo 'na 'rioed fwji yma ond roedd gan fy nhad lond dau gwt o generis Sir Efrog. **Awen Hamilton**

- Tom Nefyn, Eldon ac Ambros oedd rhai o'r enwau yr oeddem ni yn eu defnyddio – enwau pregethwyr enwog - roedd hyn yn bodloni fy nain. **Iwan Williams**

**Tabl Lliwiau Bwdjis**

| Lliw | Nifer a gofnodwyd | |
|---|---|---|
| glas (a gwyn) | 11 | 'arferol |
| melyn | 3 | |
| gwyrdd | 2 | |
| gwyrdd a melyn | 1 | |



**Tabl enwau bwdjis**

| Enw | Nifer a gofnodwyd | | |
|---|---|---|---|
| Joey | 8 | | |
| Joe | 1 | | |
| Peter | 1+ | cof am fwy | DB |
| Bili (Bili boi) | 3+ | cof am fwy | DB |
| Nelson | 1 | | |
| Jacob | 1+ | enw bob bwji oedd gan fy nain | PR |
| Rio | 1 | | |
| Twiti | 1 | | |
| Sionyn | 1 | | |
| Jack | 1 | | |
| Tom Nefyn | 1 | plesio nain! | IW |
| Eldon | 1 | plesio nain! | IW |
| Ambros | 1 | plesio nain! | IW |
| Tiny | 1 | | |


- Byji gwyrdd a melyn oedd ganddom ni yn y 50au wedi ei alw yn Joey. Ddim yn gwybod be oedd tarddiad yr enw chwaith. Nath Mam adael y ffenest yn agored a mi ffliodd i ffwrdd... cofio rhedeg ar ei ôl hyd rar cefn a trio croesi Afon Hwch gan obeithio ei ddal. Doedd Mam ddim yn boblogaidd.

**Chris Rose Thomas**

- Odd gynno'n ni Joe bach glas. A dwi meddwl cafodd ei enw achos roedd yn haws iw ddysgu i siarad falle. Roedd yn dweud *'Pretty Joe'* (braidd rhy amal weithie!). Roedd yn cael bod yn rhydd pan oedden i adre. Y plant yn cael cymaint o bleser. Roedd yn cael reid rownd y tŷ yn eu trelars ffarm ayb... mynd iddyn nhw ar liwt ei hun. Roedd yn fflio ar eu holau o gwmpas y lle, chwerthin mawr. Hoffai fynd o dan ddiferion dŵr o'r tap yn y gegin. Gwnai ei orau i fachu bwyd oddiar ein plât os gai hanner cyfle. Llawer o hwyl hefo fo ai lu o driciau bach. Dinbych 70au hwyr. **Bethan Cummings**

- Roedd gennym ni byji o'r enw Joey roedd fy ewyrth yn Caergybi yn cadw nhw. Roedd gan taid un ac roedd yn dweud *hello Will* pan oedd yn dod adre o'r dafarn. Meddylion hapus iawn. **Linda Jones**



# Tranc yr eog diweddariad


Glas 198 tud 7

**Pa fodd y trengodd yr eog**




*If you went fishing for Salmon, 110 years ago, you could expect a catch like this. Not a bad morning's effort. These were all caught from the Severals stretch on the Avon in Ringwood which I believe has the steepest gradient on the whole of the river system.*

Beth am gasglu lluniau o rhain wrth ymweld a hen safleoedd (cofiwch gofnodi'r flwyddyn) **DB**




Yng nghaffi Castell y Waun bore ma - dalwyd 13 Ebrill 1932, wrthlaw (yn y 'slip' - cored - ar draws yr afon). Dyma gip ar fywyd, a'r tywydd ('oer'), yn y cyffiniau y diwrnod hwnnw... Tra roedd milord yn cael plesio ei hun roedd y gwaith caled yn mynd yn ei flaen!!

### Dyma beth oedd yn digwydd yng Nghymru ar y diwrnod hwn :

13/4/1932 ■ Mercher 13 Plannu tatws. Daniel yn fy nôl i fynd i Bytilith. B W *['Bad Weather watch']* 6 pm i 11 pm.

**Dyddiadur Griffith Thomas, gwefan Rhiw**

13/4/1932 ■ Efo'r defaid. Plygu gwrych. Hugh yn chaino ar top pnawn. Ar ol dafad yn Glahirfryn. Llewelyn yn dod a ci bach yma. **Dyddiadur Hugh Jones Cwm Canol. Llansilyn, Sir Dinbych**

13/4/1932 ■ Efo'r defaid. Plygu gwrych. Hugh yn chaino ar top pnawn. Ar ol dafad yn Glahirfryn. Llewelyn yn dod a ci bach yma. **D. Hugh Jones**



Amlinelliad corff Ceiliog Eog, Plas Tan y Bwlch

**Amlinelliad** llawn maint o **gorff Ceiliog Eog** tu allan i fynediad **Plas Tan y Bwlch** (llun isod), Maentwrog. Mae'n rhaid fod yr eog a oedd yn pwyso 38 pwys yn record ar yr afon Ddwyryd ar y pryd. Y ddau ddewis i gofnodi oedd fel hyn, neu ei stwffio. Y dyddia yma fuasai pysgotwr yn mynd i'w boced a tynnu llun hefo ffôn symudol. **Gwilym A Roberts**

Yn ôl be glywais, fe'i daliwyd mewn rhwyd *(seine net)* yn yr afon Dwyryd islaw ddechrau'r 20fed ganrif. **Twm Elias**

Os y cofiaf yn gywir mae amlinelliad tebyg ar bont Abergynolwyn, ger Tywyn, o eog a'i ddaliwyd gan dad Ken Williams (Gwarchodfa Penrhos cynt). **Robin Parry**

Ewch i Glas 198 (tudalen 7) i weld trafodaeth arbenigwyr ar y problemau sy'n wynebu'r eog a'r sewin yn ein hafonydd a'r moroedd.

## Diweddariad yw'r eitem presennol


**Mae'r dystiolaeth yn pwyntio fwy-fwy at ffermydd pysgod:**

I feddwl fod hen botsiar yn arfer a'i berwi i'r moch ar ôl y rhyfel gyntaf (wedi colli ei dad yn y rhyfel ac llawer o frodyr a chwiorydd). Bwyd y werin er gwaethaf y stadoedd. Fy hen ewyrth yn son am fachgen lleol yn cael ei ddal yn potsio a'r teulu yn cael y dewis o adael y fferm neu gyrru y mab i'r rhyfel - ddoth o ddim adra. *UDN (ulcerative dermal necrosis)* lladdodd llawer o'r eogiaid yn y saithdegau ond roedd y rhwydi môr wedi darganfod eu meysydd bwydo hefyd. Llawer iawn o betha yn erbyn yr eog druan. **Kevin Davies**

Fe fu gweithwyr oedd yn adeiladu'r rheilffordd yn ne Cymru yn bygwth mynd ar streic ar un adeg am gael eu bwydo gyda eog yn rhy aml... dyna pwy mor hawdd oedd cael eog i'r ford adeg hynny! Dim dyddie yma yn anffodus. **Aled Davies**

**Salmon Watch Ireland**
5 awr ·

This is a graph of sea trout collapse in the Burishoole system in the west of Ireland. This is a stark reminder that sea trout and salmon farming are mutually exclusive. Salmon farms basically make sea trout survival impossible. This station is operated by the Marine Institute which is in denial of the destruction of wild salmonids by salmon farms. The recent post from Alexandra Morton showing the effect bares a striking resemblance to this.




**Dyma be welais heddiw.** Sewin nid eog ond mae cyfnod cynnar eu mudo o'r afon i'r môr yn debyg. Mae'n debyg bod y sewin yn aros ger arfordiroedd Prydain tra bod silod eog yn mudo'n bellach, ond y ddau rhywogaeth yn gorfod dioddef her y llau môr ar ddechrau'r daith. **Robin Parry**

## Dim angen nodi lleoliad…

Dim angen nodi lleoliad i'r aderyn yma. Tingoch du, Ionawr 21. Golau yn ofnadwy a glaw ysgafn, er fy mod wedi gweld sawl ceiliog tingoch du dyma'r tro cyntaf i mi gael llun. [Gweler y clawr hefyd]

**Alun Williams**




## Lliwiau'r gaeaf

**Bacteria haearn, nid llygredd**

Merddwr yng Nghapel Chwarel Goch.

Tregarth, 19 Ionawr 2025 **Dominig Kervegant**



Ewch i dudalen 4 y ddolen hon i weld sut mae'r llun hwn yn dangos celloedd mwyaf 'cyntefig' hanes bywyd, sef celloedd byw sy'n cael eu hegni trwy droi halwynni fferws hydawdd i halwyni fferig anhydawdd rhuddgoch.

## Cwpanau'r gaeaf





Lliwiau diwedd yr haf
(Pandy, Tregarth- 25 Chwefror 2025)
Cwpanau robin goch
(*Sarcoscypha austriaca*)
**Dominig Kervegant**



**Mary Jones** - Penrhos, Bangor.
25 Chwefror 2025. Siapiau diddorol...
(*Peziza [?]*)

Urdd : *Pezizales*

Cyfres Posteri **Glas**

# Cwtiaid, Cornchwiglod a Hutanod

*Charadriidae*

## 1 cwtiad torchog bach *Charadrius dubius*



Coesau gwelw

Cefn plaen wrth hedfan

B

Cynefin "gwneud"

## 2 cwtiad torchog *Charadrius hiaticula*



Coesau oren

B

Streipen wen ar yr adain wrth hedfan

Cynefin traeth naturiol

## 3 cwtiad llwyd *Pluvialis squatarola*

C



Colli'r "masg" du a gwyn yn y gaeaf

Ceseiliau duon

Cefn arian

Cynefin tywod a thraeth

## 4 cwtiad aur *Pluvialis apricaria*



C

Rhediad ysbeidiol

Cynefin porfa arfordirol

Heidiau mawr

Cefn aur

## 5 hutan y mynydd *Charadrius morinellus*



C

Iâr yn fwy lliwgar na'r ceiliog

Mân finteion ym mis Mai ar y mynyddoedd wrth 'fudo

## 6 cornchwiglen *Vanellus vanellus*

C



Hedfaniad sigledig ac adain crynion

Galwad fel ffliwt "pi-wít"

Crib coryn hardd

**Lluniau oedolion**
*Wikimedia Commons*

**Maint y corff:**
**M Mawr C Canolig B Bach**

**! Tebyg, hawdd cymysgu rhywogaethau**